# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (217)

# Dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2006

## AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

Eitem 1 - Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Eitem 2 - Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Urgent Question - Mike German (South Wales East) Would the First Minister make a statement on the implications of the State Aids map for East Wales?

Urgent Question - Janet Ryder (North Wales): Will the Minister for Enterprise, Innovation and Networks make a statement on the closure of the Iceland distribution centre in Flintshire, which will result in the loss of 350 jobs.

Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Trafnidiaeth a Gwaith (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Rheilffyrdd a Thramffyrdd) 2006

Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006

Eitem 5 – Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Plant 2004 i'r Prif Weinidog

Eitem 6 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Prif Weinidog Cymru

Eitem 7 - Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion

Eitem 8 - Y Ddadl Fer - William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff "Cyfraith Sarah"

amddiffyn plant yng Nghymru?

.....................................

**Eitem 1 - Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

.....................................

**Eitem 2 - Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

.....................................

Urgent Question - Mike German (South Wales East) Would the First Minister make a statement on the implications of the State Aids map for East Wales?

.....................................

Urgent Question - Janet Ryder (North Wales): Will the Minister for Enterprise, Innovation and Networks make a statement on the closure of the Iceland distribution centre in Flintshire, which will result in the loss of 350 jobs.

.....................................

**Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Trafnidiaeth a Gwaith (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Rheilffyrdd a Thramffyrdd) 2006**

**NDM3187 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu yn unol â

Rheol Sefydlog 26, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y gorchymyn, Gorchymyn Trafnidiaeth a Gwaith (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Rheilffyrdd a Thramffyrdd 2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2006.

Mae perthnasedd y Gorchymyn yng Nghymru yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2006.

**Dogfennau Ategol**
**Gorchymyn Trafnidiaeth a Gwaith (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Rheilffyrdd a Thramffyrdd) 2006**
**Y Memorandwm Esboniadol**

**.....................................**

**Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006**

**NDM3175 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006.

**NDM3176 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006;
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2006; ac
c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
**Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru)**

**(Diwygio) 2006**
**Adroddiad y Pwyllgor Deddfau**
**Y Drafft - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006**
**Y Memorandwm Cywiriadau**
**Yr Arfarniad Rheoliadol**

**......................................**

**Eitem 5 – Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Plant 2004 i'r Prif Weinidog**

**NDM3191 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i'r Prif Weinidog holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn Neddf Plant 2004, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, mo'u dirprwyo yn y modd hwnnw:

Adran 26 isadrannau (1) – (4), Adran 29 isadrannau (1)(a), (2), (5), (6), (7), (8), (10), (11) a (12), Adran 31 isadrannau (2) a (4) a (5), Adran 32 isadrannau (2) – (3), Adran 34 isadran (1), Adran 46, Adran 49 isadran (1).

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Dirprwyir y swyddogaethau hyn gan wybod y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

*Gellir gweld copi o Ddeddf Plant 2004 ar y Rhyngrwyd drwy ddilyn y cyswllt isod:*

*http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/20040031.htm*

**......................................**

**Eitem 6 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Prif Weinidog Cymru**

**NDM3192 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Prif Weinidog 2006 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2006.

Gellir gweld Adroddiad Prif Weinidog Cymru 2006 ar y Rhyngrwyd drwy ddilyn y cysylltiadau isod sy'n cyfeirio defnyddwyr at dudalen sy'n dangos fersiynau PDF o'r Adroddiad Blynyddol, a chrynodeb o'r adroddiad.

*Saesneg*

*http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypubs/fm-annual-report;jsessionid=A5456CB9E7327BB618D5ED0C10AC46EB.www1?lang=en*

*Cymraeg*

http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypubs/fm-annual-report?lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal ar wahân:

***(1)***
***(2+3+4+5+6+7)***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

- Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a) i gyrraedd ei thargedau amseroedd aros ar gyfer ysbytai

b) i ddiddymu taliadau gofal cartref i bobl anabl;

c) i ddarparu brecwast am ddim i bob plentyn mewn ysgolion cynradd;

d) i sicrhau bod pawb yn gallu gweld deintydd y GIG;

e) i gynyddu nifer y myfyrwyr mewn Addysg Bellach ers 2003; ac

f) i atal yr Hawl i Brynu mewn ardaloedd lle ceir pwysau am dai

- Yn mynegi pryder:

a) mai canlyniad methu â datganoli pwerau dros yr heddlu yw bod San Steffan wedi gorfodi’r broses o ailstrwythuro'r heddlu arnom;

b) y bydd y diffyg ariannol yn y GIG yn arwain at doriadau mewn gwasanaethau iechyd ac yn effeithio er gwaeth ar recriwtio a chadw gweithwyr iechyd proffesiynol;

c) nad oes strategaeth economaidd gydlynol wedi’i datblygu i wella economi’r Gorllewin a’r Cymoedd;

d) nad yw adroddiad y Prif Weinidog yn cynnwys yr adroddiad blynyddol ar y cynllun datblygu cynaliadwy;

e) nad oes cynnydd digonol wedi’i wneud o ran lleddfu tlodi tanwydd i’r bobl fwyaf agored i niwed erbyn 2010; ac

f) bod chwarter ein plant yn dioddef tlodi plant.

- Yn croesawu penderfyniadau’r Cynulliad, yn benodol ei benderfyniadau:

a) i sefydlu ymchwiliad i’r gwasanaethau ambiwlans;

b) i gynorthwyo pensiynwyr y mae eu band treth gyngor wedi codi fwy nag un band;

c) i gynyddu’r ddarpariaeth ar gyfer y gronfa ysgolion bach;

d) i gynyddu’r arian ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd;

e) i gynyddu’r arian ar gyfer prifysgolion;

f) i sicrhau na fydd myfyrwyr prifysgol o Gymru sy’n astudio yng Nghymru’n talu ffioedd ychwanegol; ac

g) i sefydlu pwyllgor i graffu ar drefniadau ariannu ysgolion.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnu ar eu haddewid i ddiddymu taliadau gofal cartref i bobl anabl.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi’r diffyg trefn yn y broses o uno CCNC penodol â Llywodraeth y Cynulliad.

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu’r gostyngiad mewn amseroedd aros dros gyfnod o 12 mis ond yn nodi bod llawer o gleifion yn dal i orfod aros am gyfnodau annerbyniol o hir.

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi’r prinder polisïau yn rhaglen lywodraethu'r Prif Weinidog pan fo dau o'i bump ‘cyflawniad mwyaf nodedig' wedi digwydd drwy weithredoedd pobl eraill.

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi mwy o flaenoriaeth i brosiectau seilwaith, (a phrosiectau trafnidiaeth yn benodol) yn rownd nesaf Cronfeydd Strwythurol Ewrop.

**Gwelliant 7 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Ac yn nodi yn ogystal â hyn y methiant i gyflawni addewidion allweddol maniffesto Llafur ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2003.

**Dogfennau Ategol**
**Adroddiad y Prif Weinidog ar gyfer 2006**
**Adroddiad y Prif Weinidog ar gyfer 2006 - Summary**

**.....................................**

**Eitem 7 - Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion**

**NDM3188 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion - 'Adroddiad ar Drefniadau Ariannu Ysgolion yng Nghymru' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno (LD5751) ar 14 Mehefin 2006.

**Dogfen Ategol**
**Adroddiad ar Drefniadau Ariannu Ysgolion yng Ngymru**

**.....................................**

**Eitem 8 - Y Ddadl Fer - NDM3189 William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff "Cyfraith Sarah" amddiffyn plant yng Nghymru?**

# Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm

**************

# Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 19 Medi 2006

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**